OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 No. 704

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011

## RHAN 3

NATUR A CHWMPAS Y TREFNIADAU AR GYFER TRIN PRYDERON

**Gofyniad i ystyried pryderon**

**10.** Yn ddarostyngedig i reoliad 14, rhaid i gorff cyfrifol drin pryder yn unol â'r trefniadau ar gyfer ymdrin â phryderon a bennir yn y Rheoliadau hyn os hysbysir y pryder ar neu ar ôl 1 Ebrill 2011—

(a) yn unol â rheoliad 11;

(b) gan berson fel a bennir yn unol â rheoliad 12;

(c) ynghylch mater a bennir yn rheoliad 13; ac

(ch) o fewn y cyfnod a bennir yn rheoliad 15.